Cynhaliwyd cyfarfod ar 14eg o Fai 2024 am 7.00

Cafwyd cyfarfod gyda cwmni Bute Energy am 7.00 lle daeth cynyrchiolaeth o Cyngor Cymuned Llangwm atom, trafodwyd y cynllun lle bydd cais cynllunio i gael i fynny at 12 twrbein gwynt yn Moel Chwa, Llanfihangel. Penodwyd bod Llanfihangel, Llangwm, Cerrig, Betws GG, a Corwen yn mynd i elw or gronfa arian yma a gofynwyd os oedd syniadau gan y pwyllgor am wario yr arian daeth ychydig o syniadau a sylwadau ger ei bron ac fe nodwyd ganddynt. Dywedwyd hefyd mai panel lleol fydd yn trafod yr arian ac bydd y broses yn hawddach iw gyrraedd na 'r rhai sydd yma yn barod er mwyn ei gwneud yn fwy rhwydd i gael mynediad ir arian. Byddant yn adrodd yn ol mewn amser.

Presennol oedd Menai Hughes, Ffuon Willliams, Llio Morris, Einion Edwards, John Jones, Maria Roberts, Prys Ellis (cadeirydd) a Cyngh Gwennol Ellis,
Cafwyd ymddiheuriadau gan Guto Jones a Dyfan Jones.
Arwyddwyd y cofnodion blaenorol fel rhai cywir.
Gohebiaeth
Bydd i bawb lenwi ac arwyddo ffurflen datgan diddordeb y cynghorwyr.
[1] Toiledau Cerrig y Drudion - rydym wedi cael gwybod na fydd y toiledau yn ail agor gan Gyngor Conwy – pasiwyd i gael cyfarfod a Gary Williams i drafod ymhellach ar sut i efallai ei cymeryd drosodd ir gymuned iw rhedeg, pasiwyd i gael mwy o wybodaeth gan Cyngor Conwy ar faint yw y gost rhedeg yr adeilad fel dwr, trydan treth ac yn y blaen y clerc i wahodd Gary Williams or Sir atom i weld y safle gan hefyd bwyntio at y goeden fawr syn creu ychydig o bryder i drigolion cyfagos.
[1.1] Llythyr Marial - cafwyd llythyr yn diolch am ein cefnogaeth i gefnogi cais cynllunio sydd wedi bod yn llwyddiannus.
[1.2] David Robinson cafwyd llythyr yn datgan ei siom fod y toiledau ar gau.
[1.3] Ysgol Cerrig y Drudion - cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad o £250 tuag at gost cael Ifan iw dysgu i chwarae rygbi, pasiwyd i gyfrannu £250.00.
[1.5] Scottish Power mewn credid £110.99.
[1.6] Eisteddfod Llangollen gofyn am gyfraniad pasiwyd i beidio a cyfrannu.
[1.7] Nicola Jones Mind Conwy – gofyn am gyfraniad pasiwyd i gyfrannu £100.00.
[1.8] Cyflog y clerc pasiwyd i dalu cyflog y clerc.
[1.9] PAYE pasiwyd i dalu i HMRC.
[2] Awdit Mewnol – mae Mae Emyr Mortimer wedi cytuno i wneud yr awdit mewnol inni cafwyd llythyr Penodi Archwilydd ir Cyngor Bro arwyddo ganddynt. Trafodwyd taflen blwyddyn ariannol yn y cyfarfod hefyd.
[2.1] Sage book keeping - mae'r clerc wedi prynnu llyfr derbyniad taliad er bydd derbyniadau ffioedd y fynwent. £27.54, paswiyd talu ir clerc.
[2.2] Arian Byw cafwyd anfoneb gan Teleri am y gwaith gwneud awdit mewnol a cyflog 2023. £125.00 pasiwyd iw dalu.
[2.3] Cyngor B Sirol Conwy y precept cynta wedi ei dderbyn £3,334.00
[2.4] Wedi derbyn tal llogi gan Caffi Mair £200.00.
[2.5] Wedi derbyn ad daliad VAT £153.27
[2.6] Marc Roberts ein ymghynghorydd dichionoldeb mae'r hoidaur bron wedi ei gwbwlhau ac yn barod iw ddosbarthu yn y mis nesaf, y clerc a Cyn Gwennol Ellis i gyfarfod a Marc iw gwblhau y holiadur terfynnol cyn iddo fynd allan ir cyhoedd.
[2.7] Wedi derbyn cyfraniad o £200 gan Elusen Cerrig y Drudion tuag at blannu blodau yn y potiau yn y pentref.

[2.8]  Cyngor B Sirol Conwy   cafwyd anfoneb tuag at cynnal a cadw y llyfrgell £1,250.00 pasiwyd iw dalu.
[2.9]  Sefydliad Addysgol Cerrig y Drudion   cafwyd llythyr yn diolch am ein cyfraniad y llynnedd ac yn gofyn os modd cael cyfraniad eto eleni  pasiwyd i gyfrannu £200.00.
[3]  Llythyr gan Ifor Owen, yn gofyn am gyfraniad tuag at bws i fynd ar daith pererindod pasiwyd i gyfrannu £100.00.
[3.1]  Glyn Lloyd Hughes – cafwyd anfoneb am y gwaith clirio a phlannu yn y fynwent   £1,723.00 pasiwyd iw dalu.
[3.2]   anfoeb am disl coch (ir peiriant torri coed yn y fynwent)  gan Humphreys Tai Draw   £62.40 pasiwyd iw dalu.
[3.3]   Llnau gwteri yr ystafell plwyf    cytunodd Prys Ellis a Einion Edwards wneud y gwaith.